LLWYBR LLAFAR HIRWAUN AUDIO TRAIL
RHONDDA CYNON TAF

I lwytho'r llwybrau i lawr sganiwch y côd QR gyda darllenwr côd bar smartphone.

Scan the QR code with a smartphone barcode reader to download the trails.

www.heritagetrailsrct.co.uk

Distance:
2 miles / 3.2 km

Allow:
2 hours

Pellter:
2 filltir / 3.2 km

Caniatewch:
2 awr

Walking Trail
Taith Gerdded

1. Hirwaun Library
   Llyfrgell Hirwaun
2. The Square
   Y Sgwâr
3. Hirwaun Ironworks
   Gwaith Haearn Hirwaun
4. Tŷ Mawr
5. Craig y Llyn
6. The Brickworks
   Y Gwaith Brics
7. Hirwaun Railway Station
   Gorsaf Reilffordd Hirwaun
8. Y Bont Fawr
9. St Lleurwg's Church
   Eglwys Sant Lleurwg

Please note this is a countryside walk, with uneven terrain, including some steep ascents and descents.

This walk is not suitable for pushchairs or wheelchairs, or people with mobility problems.

Noder: taith gerdded cefn gwlad ydy hon, gyda thir anwastad a rhai llethrau serth.

Dydy'r daith ddim yn addas ar gyfer pramiau, cadeiriau olwyn na phobl sy'n dioddef o anawsterau symudoledd.

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

The Valleys
Heart and Soul of Wales

Y Cymoedd
Calon ac Enaid Cymru

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ewrop a Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Regional Development Fund

LLWYBR LLAFAR HIRWAUN AUDIO TRAIL
RHONDDA CYNON TAF

www.heritagetrailsrct.co.uk

DIRECTIONS TO:

1 Hirwaun Library

Road - The library can be found on High Street, Hirwaun, CF44 9SW. There is a free car park next to the library.
Telephone 01685 811144

Train - The nearest train station is located in Aberdare. Enquiries: 08457 484950

Bus - A number of bus operators serve Llantrisant. For information enquire Traveline Cymru Tel. 0871 200 2233, www.traveline.info

Cycle - Visit www.sustrans.org.uk to see the National Cycle Network in this area. Enquiries 0800 243 731

2 The Square

On your left you should have the library. Cross over the little one-way street and then head up to the shops on the High Street; in my day that road used to be the tramway. We are then going to turn right and head along the road until we reach the war memorial, with the clock. That is our next stop, you can't miss it.

3 Hirwaun Ironworks

So follow me along the gravel footpath between what was the Police Station and the left hand side of the Rugby Club. It is only a short distance until we reach the bridge over the River Cynon. There I'll show you around Hirwaun Ironworks.

4 Tŷ Mawr

Let's follow the path that bears off to the left, passing by what was the engine house on our left hand side, although no remains can be seen today. Having passed through a strip of shrubs and trees, and up a short rocky section of path, we'll need to turn left and then head up the driveway to the Manager's House – Ty Mawr.

5 Craig Y Llyn

We are not returning to the Ironworks. Just follow the driveway gently around to the left, from Ty Mawr, until you reach the houses on your right. The street with the bungalows on the left and terraced housing on the right is called Crawshay Street. We are actually going to double back on ourselves here, and head to the right of the terrace houses. Stop when you reach second row of terraces, on the corner of Tudor Avenue, and enjoy the panoramic view.

6 The Brickworks

Let's turn left and head down the full length of Tudor Avenue, turning left at the t-junction at the bottom. Follow this road gently uphill until you reach the level crossing. As you follow this former tramway, look out for the farm on the right hand side of Penyard Road. The buildings were once used as stables for the Ironworks horses. Just a little further up – through the gate by the post box – you should spot the stone-built limekilns; some farmers, at least, saw industrialisation as a way to make some extra money! Wait for me at the level crossing and try to imagine what it was like for us when the first train steamed through Hirwaun.

7 Hirwaun Railway Station

Let's turn left and uphill to Railway Terrace and continue down the other side to Elm Grove, you'll soon see the full extent of the brickworks on our left. We'll stop when we arrive at the road junction, next to the new houses on the left.



8 Y Bont Fawr

I think the next place we should stop is on the bridge over the Cynon, just at the bottom of Station Road. Don't be confused by the road sign saying John Street, we in Hirwaun have always called it Station Road. It seems the streets round here today have either two names or no name!

9 St Lleurwg'sChurch

Let's head over the bridge and along Station Road as it veers to the left. Our last stop is outside the gates of St Lleurwg's Church.

1 Hirwaun Library

We are almost back at the start of the walk. Keep left here and you'll return back at the library. We have come a long way since Hirwaun – the Long Meadow – was an extensive agricultural area, farmed by just a few folk cut off from the outside world.

LLWYBR LLAFAR HIRWAUN AUDIO TRAIL
RHONDDA CYNON TAF

www.heritagetrailsrct.co.uk

SUT I GYRRAEDD:

1 Llyfrgell Hirwaun

Gyrru - Mae'r llyfrgell yn High Street, Hirwaun, CF44 9SW. Mae maes parcio am ddim drws nesaf i'r llyfrgell. Ffôn 01685 811144

Trên -Gorsaf Aberdâr ydy'r orsaf agosaf. Ymholiadau: 08456 040500

Bws - Mae nifer o gwmnïau bysiau yn gwasanaethu Hirwaun. Ffoniwch Traveline Cymru 0871 200 2233 am ragor o fanylion. www.traveline.info

Beic - Ewch i www.sustrans.org.uk i weld map o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ar gyfer yr ardal yma.

2 Y Sgwâr

Mae'r llyfrgell i'r chwith ohonoch chi. Croeswch y stryd fach un ffordd ac ewch yn eich blaen i'r siopau yn y Stryd Fawr. Dyna lle roedd y dramffordd, yn fy amser i. Tro i'r dde, ac i lawr yr hewl nes i ni gyrraedd y gofeb ryfel, gyda'r cloc. Dyna'r lle nesa safwn ni.

3 Gwaith Haearn Hirwaun

Dere gyda fi - awn ni ar hyd y llwybr troed graean rhwng hen Orsaf yr Heddlu, ac ochr chwith y Clwb Rygbi. Mewn dim, a dyma ni ar bwys y bont dros Afon Cynon. Pan fyddi di yno, mi wna i ddangos Gwaith Haearn Hirwaun i ti.

4 Tŷ Mawr

Wnawn ni ddilyn y llwybr 'ma draw tua'r chwith. Does dim byd i'w weld heddi, ond ar y chwith roedd y tŷ injan yn sefyll. Awn ni ymlaen fan hyn, drwy fan yn llawn llwyni a choed, a lan rhyw ddarn o'r llwybr sy'n llawn o gerrig. Byddwn ni'n gorfod troi i'r chwith wedyn, a lan y dramwyfa i Dŷ'r Rheolwr– Tŷ Mawr.

5 Craig Y Llyn

Awn ni ddim yn ôl i'r Gwaith Haearn. Awn ni lawr y dramwyfa o'r Tŷ Mawr tua'r chwith, nes i ni gyrraedd y tai ar y chwith. Byngalos sy ar ochr chwith y stryd, a thai teras ar y dde. Crawshay Street yw hon. Awn ni'n ôl nawr, a cherdded i'r dde o'r tai teras. Arhoswn ni pan ddown ni i'r ail res deras, ar gornel Tudor Avenue. Dyna olygfa wych sydd i'w gweld o fan 'na!

6 Y Gwaith Brics

Trown ni tua'r chwith, a cherdded bob cam i lawr Tudor Avenue. Pan gyrhaeddwn ni'r gwaelod, lle mae'r cyffordd-T, trown tua'r chwith eto. Lan y tyle â ni wedyn, nes i ni gyrraedd y groesfan. Awn ni ar hyd yr hen dramffordd wedyn, a dishgwl tua'r dde. Dyna'r fferm, ar ochr dde Penyard Road. Ar un adeg, stable i geffylau'r Gwaith Haearn oedd yr adeiladau hyn. Awn ni dipyn bach ymhellach lan y tyle. Drwy'r giât ar bwys y blwch llythyron, a dyna'r odynnau calch. Maen nhw wedi'u gwneud o gerrig - rhai o'r ffermwyr yn croesawu agor yr holl weithie, a gweld siawns i ennill ceiniog fach! Aros amdana i ger y groesfan. Dychmyga fel roedd hi i ni yn yr Hirwaun ers talwm iawn, a'r trên cyntaf yn carlamu drwy'r pentref.

7 Gorsaf Reilffordd Hirwaun

Trown ni i'r chwith nawr, a lan y tyle i Railway Terrace. Awn ni lawr yr ochr arall tuag Elm Grove, a byddi di'n gweld ar y chwith mor fawr oedd y gwaith brics. Fe safwn ni pan ddown ni at y gyffordd, ar bwys y tai newydd i'r chwith.

8 Y Bont Fawr

Mae'n bryd i ni gael pip ar y bont dros Afon Cynon, ym mhen isaf Heol yr Orsaf. Ti'n poeni am yr arwydd 'na sy'n dweud John Street? Paid â gwneud sylw o hwnna 'Heol yr Orsaf' yw hi i ni bobl yr Hirwaun! Mae sawl stryd yn y pentref â mwy nag un enw - ac ambell un heb enw o gwbl!

9 Eglwys Sant Lleurwg

Awn ni dros y bont, ac i lawr Heol yr Orsaf wrth i honno droi tua'r chwith. A dyma ni'n dod at ran olaf y daith. Safwn ni tu fâs i giatiau Eglwys Sant Lleurwg.

1 Llyfrgell Hirwaun

Dyma ni bron wedi cyrraedd lle dechreuon ni. Cofia gadw i'r chwith fan hyn, a byddi di'n ôl o flaen y llyfrgell. Rydyn ni wedi teithio ymhell o'r hen fyd 'na, pan oedd pobl yr Hirwaun yn ffermwyr, yn trin y tir a chadw anifeiliaid, yn gymdeithas fach heb boeni dim am weddill y byd mawr.